



Plaid Cymru | Party of Wales

Galwadau Amgen Plaid Cymru am Lythyr Erthygl 50

Leanne Wood AC – Arweinydd Plaid Cymru

Yr wythnos hon, bydd Prif Weinidog y DG yn rhoi hysbysiad, dan Erthygl 50(2) Cytundeb yr Undeb Ewropeaidd, o fwriad y Deyrnas Gyfunol i ymadael â'r UE.

Ers y bleidlais yng Nghymru i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Plaid Cymru wedi blaenoriaethu buddiannau cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn bennaf wedi golygu amddiffyn a hyrwyddo ein buddiannau economaidd. Nid yw buddiannau cenedlaethol Cymru yn cyd-fynd ag amcanion Llywodraeth y DG, sy'n golygu bod yn rhaid i Gymru gael ei llais penodol ei hun mewn unrhyw drafodaethau.

Mae disgrifiad clir a chynhwysfawr o fuddiannau cenedlaethol Cymru yn y trafodaethau hyn wedi ei gynhyrchu gan Plaid Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, ar ffurf y Papur Gwyn *Sicrhau Dyfodol Cymru*. Mae ein blaenoriaethau isod yn adeiladu ar y safbwynt penodol Cymreig hwnnw. Nid ydynt yn hollgynhwysol, a dylid edrych ar y Papur Gwyn i gael darlun manwl o bolisiau.

Rhaid i unrhyw broses o hysbysu dan Erthygl 50 ystyried y blaenoriaethau hyn ac adlewyrchu barn ehangach y gweinyddiaethau datganoledig yn y DG. Rhaid hefyd cydnabod gofynion penodol Gogledd Iwerddon fel mater o dragwyddol bwys. Mae Plaid Cymru yn wastad wedi dweud na fydd proses Erthygl 50 a 'wnaed yn San Steffan' yn dderbyniol na llwyddiannus.

Cyn amlinellu blaenoriaethau trafod penodol Plaid Cymru, byddai ein plaid hefyd eisiau diolch i bartneriaid trafod Cyngor Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd am eu hymrwymiad parhaus i heddwch, democratiaeth a hawliau dynol. Mae Plaid Cymru yn falch o fod wedi bod yn rhan o drawsnewid Ewrop o fod yn gyfandir o ryfel i un o heddwch. Rhaid cynnal y broses o ymadael â'r UE mewn hinsawdd o barch at ei gilydd a chynabod y llwyddiannau hynny.

Nid diwedd y daith mo'r galwadau amgen hyn o ran gweledigaeth Plaid Cymru dros Gymru ac Ewrop. Camau nesaf ydynt mewn cenhadaeth barhaus i gynnal buddiannau cenedlaethol Cymru. Dros y blynyddoedd i ddod, rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol aros yn rheng flaen y trafodaethau hyn, nid yn unig o ran ymgynghori ond trwy ymwneud yn llawn yn yr holl drafodaethau.

1. Marchnad Sengl ac Undeb Tollau'r Undeb Ewropeaidd

Bwriad Plaid Cymru yw hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau cenedlaethol Cymru bob cyfle a gaiff. Er mai mandad y refferendwm yw tynnu allan o'r undeb gwleidyddol, nid yw Plaid Cymru eisiau gadael yr undeb economaidd. Fel yr addawyd ym Maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2015, dylai Cymru a'r DG ddal i allu elwa o barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl Ewropeaidd.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld cytundeb lle gall Cymru gadw ei haelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a / neu Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop yn ogystal â'r Undeb Tollau Ewropeaidd, ac sy'n osgoi rhwystrau tariff a di-dariff bob tro.

2. Hawliau i ddinasyddion yr UE yn byw yng Nghymru

Yr ydym yn croesawu cyfraniad gweithwyr a mudwyr Ewropeaidd i gymdeithas ac economi Cymru, a herio'r negyddiaeth ddaeth yn flaenllaw mewn disgwrs wleidyddol. Safbwynt Plaid Cymru yw bod yn rhaid gwarantu hawliau dinasyddiaeth holl ddinasyddion yr UE yng Nghymru. Dyma'r ffordd orau o sicrhau hawliau cilyddol i ddinasyddion Cymru sy'n byw yn aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

Dylid galluogi'r Ardal Deithio Gyffredin y tu fewn i Ynysoedd Prydain ac Iwerddon i barhau i weithredu y tu hwnt i unrhyw gytundeb a drafodwyd.

3. Gwarant o drefniadau cyllido

Ni ddylai ac ni fydd Cymru ar ei cholled yn ariannol pan ddaw cyllid yr UE i ben. Dylai a gallai Cymru barhau i elwa o amrywiaeth o raglenni Ewropeaidd sydd o les i'n dinasyddion. Mae buddsoddi sylweddol yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo gan nifer o raglenni llai yr UE a chredwn yn gryf y dylai Cymru barhau i allu eu cyrchu o'r tu allan i'r UE.

Yn eu mysg mae: Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol a Rhaglen Cymru-Iwerddon. Yr ydym hefyd eisiau i Gymru aros yn bartner ym Manc Buddsoddi Ewrop, gan nodi y gellir sicrhau hyn y tu allan i'r UE os bydd angen.

Dylai taliadau cynnal amaethyddiaeth y tu hwnt i unrhyw drafodaethau gael eu gwarantu gan Lywodraeth y DG. Dylai swm llawn y cyllid presennol barhau, gyda rheolaeth dros bolisi yn cael ei neilltuo'n rhydd i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid i drafodaethau Llywodraeth y DG gyda sefydliadau'r UE gydnabod a chynnal rôl economaidd,, amgylcheddol a diwylliannol ffermio Cymreig.

4. Datganoli pwerau i Gymru a dyfodol y DG

Ni ddylai gadael yr UE olygu fod pwerau datganoledig yn cael eu dwyn yn ôl gan Lywodraeth y DG. Bydd Plaid Cymru yn gweithio i sicrhau fod pwerau a ddatganolwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond sy'n gweithredu o fewn i fframwaith rheolaethol yr UE, yn parhau i fod wedi eu datganoli yng Nghymru. Mewn meysydd a gedwir yn ôl ar hyn o bryd i Lywodraeth y DG ond sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd polisi datganoledig, byddwn yn pwysu am ddatganoli pellach.

Rhaid datrys materion datganoli yn fewnol yn y DG ar sail cydraddoldeb a pharch rhwng y cenedloedd a'r llywodraethau. Rhaid i Lywodraeth y DG greu hinsawdd o ymddiriedaeth

trwy fod yn dryloyw am eu bwriadau. Dywed Plaid Cymru eto na roddwyd unrhyw fandad etholaethol erioed gan bobl yng Nghymru i leihau pwerau na chyfrifoldebau ein Cynulliad Cenedlaethol.

Dylai Llywodraeth y DG fynd at hysbysiad Erthygl 50 mewn modd sy'n sicrhau statws arbennig yn yr UE i Ogledd Iwerddon. Dylid diffinio hyn yn y ffordd fwyaf priodol fyddai'n sicrhau'r broses heddwch, cydraddoldeb a democratiaeth yn y diriogaeth honno.

Yng nghyswllt yr Alban, rhaid i drafodaethau Llywodraeth y DG barchu'n llawn fwriadau Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban i gynnal unrhyw refferendwm o fewn amserlen o'u dewis hwy. Ni ddylai Llywodraeth y DG bennu pryd y gall neu na all yr Alban benderfynu ar ei dyfodol. Byddai gwneud hyn yn niweidio buddiannau Cymru ac yn gwaethygu'r berthynas rhwng y gweinyddiaethau.

5. Cytundebau Terfynol wedi eu Trafod

Rhaid i unrhyw gytundeb terfynol a drafodir rhwng y Deyrnas Gyfunol a sefydliadau'r UE adlewyrchu canlyniad trafodaethau cyflin o fewn y wladwriaeth hon. Dylai unrhyw gytundeb terfynol hefyd fynnu y dylid cael cymeradwyaeth gweinyddiaeth a seneddau datganoledig y DG, fel y maent adeg tynnu allan. Dylid datblygu gweithdrefn i sicrhau nad oes modd gwneud y cytundeb yn derfynol hyd nes iddo gael cytundeb pob cenedl neu wlad yn y DG.

Dylid cadw'r posibilrwydd o gadarnhau cytundeb terfynol trwy refferendwm yn agored.

Ni fyddai gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb wedi'i drafod yn dderbyniol i Blaid Cymru. Nid oes gan ein plaid ddim diddordeb mewn mwy o ynysu neu wahanu oddi wrth y farchnad sengl a allai godi o ddychwelyd at reolau Sefydliad Masnach y Byd.